Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Craigfelen
# Cilgant Woodside
# Clydach
# SA6 5DP

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Craigfelen

Mae Ysgol Gynradd Craigfelen ym mhentref Craigfelen yn awdurdod lleol Abertawe. Mae'r ysgol wedi tyfu'n raddol dros gyfnod ac mae 180 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar y gofrestr erbyn hyn, gan gynnwys 28 o ddisgyblion sy'n mynchu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 22% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 50%, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac mae ychydig iawn ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2011. Cynhaliwyd yr arolygiad blaenorol o'r ysgol ym mis Mehefin 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Craigfelen yn darparu lefel uchel o ofal a chymorth ar gyfer ei disgyblion.  Mae ganddi bartneriaethau cryf â theuluoedd lleol, sy'n gwerthfawrogi darpariaeth yr ysgol yn fawr.  Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn darparu cyfleoedd cyffrous, go iawn ar gyfer pob un o'r disgyblion.  Mae profiadau dysgu yn datblygu disgyblion fel dinasyddion hyderus, parchus, creadigol ac entrepreneuraidd yn dda.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o ran datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).  Caiff bron pob un o'r disgyblion gymorth hynod effeithiol o ran datblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol.  O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol, yn aml o fannau cychwyn isel.  Mae arweinyddiaeth ragorol yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael profiadau dysgu cyfoethog a chreadigol mewn amgylchedd diogel, hapus a meithringar.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith o ran arweinyddiaeth yr ysgol a'i darpariaeth ar gyfer lles disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn dechrau’r ysgol â medrau sydd islaw’r rheiny sy’n ddisgwyliedig am eu hoedran. O’r mannau cychwyn isel hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy’r ysgol, ac maent yn cyflawni’n dda erbyn iddynt gyrraedd diwedd cyfnod allweddol 2. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn.

Wrth i ddisgyblion symud trwy’r cyfnod sylfaen, gwnânt gynnydd da o ran datblygu eu medrau siarad a gwrando. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn hapus a hyderus pan fyddant yn croesawu oedolion anghyfarwydd i’w hysgol. Yn ystod y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella eu medrau llythrennedd sylfaenol yn dda. Maent yn mwynhau archwilio patrymau sillafu a datblygu eu medrau llawysgrifen i wella ffurfio llythrennau. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen. Maent yn darllen â chywirdeb a hyder cynyddol. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i ddeall geiriau anghyfarwydd wrth ddarllen stori newydd am ddeinosoriaid. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion gynllunio stori gan ddefnyddio map stori. Maent yn drafftio a gwella eu gwaith ysgrifenedig. Maent yn ysgrifennu mewn amrywiaeth addas o ffurfiau, fel rhestrau, llythyrau, cyfarwyddiadau a cherddi sy’n seiliedig ar Dân Mawr Llundain.

Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i gynnal y cynnydd da hwn, ac mae tua hanner ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn ym mhob maes llythrennedd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau mewn darllen ac ysgrifennu a defnyddiant y medrau hyn yn dda i ysgrifennu darnau cyffrous a dychmygus estynedig. Pan gyflwynir clipiau digidol diddorol i’r disgyblion, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio eu gwybodaeth am gychwynwyr stori i ddatblygu agoriadau cyffrous i storïau. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu hysgrifennu’n hyderus wrth ddisgrifio lleoliad neu ddefnyddio deialog. Maent yn mwynhau darllen ac yn siarad yn hyderus am eu hoff awduron. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn esbonio prif bwyntiau storïau y maent yn eu darllen ac yn deall pam mae darllen yn fedr bywyd pwysig. Ar draws y cyfnod allweddol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau â datblygu sgript llawysgrifen ddestlus a darllenadwy. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n dda ar ei gilydd ac ar oedolion, ac maent yn siarad yn hyderus, er enghraifft wrth siarad am eu gwaith eu hunain yn ystod eu ‘Sesiynau Mynegi’.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau iaith yn y Gymraeg. Yn y dosbarth meithrin, maent yn dechrau cyfrif ac yn ymateb yn briodol i gwestiynau syml. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn briodol. Maent yn ymateb yn gywir i oedolion wrth ymateb i gwestiynau sy’n seiliedig ar destunau cyfarwydd. Maent yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml am yr hyn sy’n eu gwneud yn iach. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu, ond ychydig iawn o ddisgyblion sy’n ymestyn eu medrau llythrennedd yn y Gymraeg. Mae ychydig iawn o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau Cymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael medrau mathemategol yn systematig ac yn datblygu eu medrau rhif yn briodol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall cysyniadau amser, mesur ac arian ac yn defnyddio’r medrau hyn yn rhwydd mewn cyd-destunau go iawn a chyffrous. Datblygant eu gallu i ddefnyddio cyfrif yn y pen a chyfrifiadau ysgrifenedig ar draws y cwricwlwm. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd a meddwl yn effeithiol mewn ystod o sefyllfaoedd entrepreneuraidd, er enghraifft wrth redeg banc yr ysgol, sef ’Money Spiders’, neu Gaffi Graigos yn y neuadd gymunedol leol. Mae medrau rhesymu’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n eithriadol o dda trwy’r cyfleoedd cyffrous hyn.

Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn archwilio’r defnydd o TGCh ac yn rhyngweithio â rhaglenni syml yn briodol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn hyderus wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Er enghraifft, yn y dosbarth derbyn, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio robotiaid Bee Bot rhaglenadwy yn hyderus i gyrraedd cyrchfan a ddymunir. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod dda o fedrau TGCh. Maent yn casglu data ac yn ei gyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft mewn graffiau a chyflwyniadau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu taenlenni’n dda. Er enghraifft, maent yn creu taenlenni sy’n crynhoi data ar greaduriaid bach i baratoi ar gyfer ymchwilio i gasglu pryfaid genwair. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio codau ymateb cyflym i edrych ar gwestiynau am destun Cymraeg. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio llwyfan ar-lein yn hyderus i arbed ac adalw eu gwaith. Maent yn ymgysylltu’n llwyddiannus â’r llwyfan i’w cynorthwyo â’u dysgu a datblygu ystod addas o fedrau TGCh.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu dawn greadigol a’u medrau corfforol yn eithriadol o dda. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau artistig, cerddorol a dawns yn fedrus wrth iddynt symud yn eu blaenau trwy'r ysgol. O ganlyniad i’r cyfleoedd hyn, mae disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at fywyd ysgol, ac fe gaiff eu hyder a’u hunangymhelliant cynyddol effaith gadarnhaol ar eu cynnydd mewn meysydd eraill o’u gwaith.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn mwynhau dod i’r ysgol ac maent yn falch iawn o’u cyflawniadau. Mae’r ethos cynnes a gofalgar yn helpu disgyblion i deimlo’n ddiogel a gwybod beth i’w wneud os byddant yn poeni neu’n pryderu. Mae safonau ymddygiad bron pob un o’r disgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn rhagorol. Maent hefyd yn eithriadol o gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr, staff a disgyblion eraill.

Mae gan bron bob un o’r disgyblion ddealltwriaeth dda iawn o bwysigrwydd cadw’n iach trwy fwyta ac yfed yn synhwyrol a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Er enghraifft, mae pob un o’r disgyblion yn cymryd rhan yn frwd yn y sesiynau dysgu wythnosol yn yr awyr agored ac maent yn mwynhau rhedeg siop bwydydd iach yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu’n dda iawn at ddatblygu eu lles, eu medrau cymdeithasol a’u hunanhyder.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ymgymryd ag ystod helaeth o rolau arwain trwy grwpiau niferus llais y disgybl. Mae’r rhain yn cynnwys y grŵp Lles Ieir, Pŵer

Disgyblion (Pupil Power) a'r Criw Mentrus (Enterprise Troopers). Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd eu rolau a'u cyfrifoldebau yn ddifrifol iawn ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol. Er enghraifft, mae'r grŵp pŵer disgyblion yn ysgrifennu eu cynlluniau eu hunain sy'n addas ar gyfer plant i wella llawysgrifen, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â chynllun gwella'r ysgol. Maent yn monitro effaith eu cynllun trwy edrych ar lyfrau a siarad â chyfoedion ar draws yr ysgol gyfan. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd ag uwch arweinwyr i drafod y cynnydd o ran rhoi'r cynllun hwn ar waith. Defnyddiant wobrau ysgol gyfan i helpu cymell eu cyfoedion. O ganlyniad, mae llawysgrifen wedi gwella'n sylweddol ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn datblygu medrau arwain a medrau bywyd hynod effeithiol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn helpu rhedeg y caffi cymunedol wythnosol lleol. Mae'r grŵp lles ieir yn gofalu am ieir yr ysgol ac yn defnyddio'r wyau ffres ar y fwydlen wythnosol yn y caffi cymunedol. Mae disgyblion yn codi arian yn rheolaidd ar gyfer sawl elusen trwy'r elw a wnânt. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth ragorol o saith gwerth craidd yr ysgol, sef goddefgarwch, ymrwymiad, dyfalbarhad, brwdfrydedd, penderfyniad, hyder a chymwynasgarwch. Dangosant ddealltwriaeth gref iawn o bwysigrwydd yr hawliau a'r gwerthoedd hyn. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn siarad am y modd y maent yn defnyddio gwerthoedd yr ysgol i'w helpu i ddeall pwysigrwydd dyfalbarhad wrth adeiladu gwahanol strwythurau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion wedi datblygu amrywiaeth o strategaethau i'w helpu i gwblhau tasgau heriol, sy'n eu cynorthwyo'n dda o ran datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. O ganlyniad, mae disgyblion yn myfyrio ar y modd y mae hyn yn eu helpu i fod yn ddinasyddion gwell yn eu hysgol eu hunain a thu hwnt.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymrwymiad cryf iawn tuag at eu dysgu. Maent yn dal ati i ganolbwyntio'n llwyddiannus wrth weithio'n unigol ac fel grŵp. Mae plant yn ystyriol o anghenion plant a phobl eraill a dangosant barch, goddefgarwch a thosturi at ei gilydd. Mae hyn yn hynod amlwg yn y ffordd y mae disgyblion hŷn yn trin disgyblion iau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u targedau personol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn awyddus i drafod eu gwaith ac yn disgrifio'n glir beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn mynegi eu barn yn hyderus am yr hyn yr hoffent ei ddysgu o destunau, a sut maent yn gwneud dewisiadau am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, mae disgyblion ar ddiwedd y cyfnod sylfaen yn creu cynlluniau 'Pawb yn cynllunio yn y dosbarth' ('EPIC') i gynllunio a gofyn am adnoddau ar gyfer y gweithgaredd yr hoffent ei wneud fel rhan o'u darpariaeth estynedig. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig am eu dysgu ac yn dangos diddordeb cadarnhaol iawn yn eu gwaith.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae athrawon yn disgwyl i ddisgyblion weithio'n galed a gwneud eu gorau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r dysgu yn symud ar gyflymdra addas. Mae bron pob un o'r staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol oherwydd y perthnasoedd ymddiriedus rhwng staff a disgyblion.

Mae bron pob un o'r athrawon yn darparu adborth defnyddiol a chadarnhaol ar lafar yn ystod gwersi. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod beth maent wedi ei gwneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae llawer o athrawon yn holi disgyblion yn dda yn ystod gwersi yn y mannau dan do ac yn yr awyr agored. Mae bron pob un o'r athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig pwrpasol i ddisgyblion ar eu gwaith ac mae'r rhan fwyaf yn dilyn polisi marcio'r ysgol yn gyson. Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn gywir ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r asesiadau hyn yn effeithiol i osod targedau ar gyfer disgyblion unigol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn nodi'n glir y camau nesaf y dylai disgyblion eu cymryd ac yn darparu cyfleoedd addas iddynt ymarfer unrhyw fedrau y mae angen iddynt eu gwella.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn rhoi adborth priodol i ddisgyblion hŷn, ac o ganlyniad, maent yn ymateb yn uniongyrchol i'r sylwadau y mae athrawon a disgyblion eraill yn eu gwneud yn eu llyfrau ac yn darparu tystiolaeth o fodloni eu targedau. Fodd bynnag, mae'r sylwadau ysgrifenedig gan athrawon ar waith disgyblion iau weithiau'n rhy gymhleth.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu effeithiol. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio'n greadigol, yn hynod arloesol ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion. Mae'r ysgol yn hynod effeithiol o ran darparu cyd-destunau go iawn ar gyfer dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae'r caffi cymunedol yn darparu amgylchedd cyfoethog ac ysgogol i ddisgyblion ddysgu am fwyta'n iach, marchnata, gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol ar gyfer disgyblion sy'n cefnogi eu dysgu'n dda, er enghraifft ymweliadau â'r farchnad leol i hysbysebu a gwerthu fflapjacs 'Oaty Heaven' a diodydd 'HocoChoco: cuddles in a cup'. O ganlyniad, mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd uniongyrchol i ryngweithio â'r cyhoedd pan fyddant yn gwerthu eu cynhyrchion, gan gynnwys cyfarfod ag ymwelwyr o Texas.

Mae staff yn y cyfnod sylfaen yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r modd y mae pobl ifanc yn dysgu a datblygu. Maent yn darparu cydbwysedd addas o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol a gyda disgyblion eraill. Mae'r profiadau dysgu hyn yn cynnwys llawer o dasgau uniongyrchol, chwareus ac ymarferol, sy'n ddifyr a diddorol ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfle i archwilio sut i amddiffyn clustiau Discovery Dog rhag tân gwyllt swnllyd, ac fel y gwnaeth y Blaidd Mawr Drwg, 'chwythu a phwffian' i chwythu gwrthrychau ar draws y bwrdd.

Mae athrawon yn cynllunio'n helaeth ar gyfer datblygu creadigol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio argraffu, ysgythru, braslunio a pheintio i greu pabïau yn eu testun 'Cofio Cofio'. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso medrau meddwl creadigol mewn ffordd fentrus ac uchelgeisiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu a chynhyrchu gwahanol ddiodydd 'moctêl', fel 'Tropical Treats' a 'Pineapple Obelisk', yn barod i'w rhannu â'u rhieni.

Mae staff yn defnyddio'r ddarpariaeth awyr agored yn rheolaidd gyda disgyblion o bob oedran. Mae athrawon yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio ystod gyfoethog o iaith, ac yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu ar draws y cwricwlwm yn ystod y 'Dydd Mercher Esgidiau Glaw' ('Welly Wednesday') wythnosol. Mae disgyblion hŷn yn datblygu gwaith tîm effeithiol ac yn cymryd risgiau cyfrifol wrth adeiladu pont ar draws

llecyn mwdlyd yn y goedwig. Mae disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd tosturi, gofalu am bobl eraill ac am gymryd cyfrifoldeb trwy gyfleoedd i ryngweithio â Bert ac Ernie, y moch cwta, ac o fwydo, glanhau a chasglu wyau gan ieir yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn y cwricwlwm ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn dysgu am straeon tylwyth teg ac yn mwynhau rhannu eu hoff straeon mewn gwledd 'ganol nos', tra bod banc yr ysgol yn annog llythrennedd ariannol ymhlith disgyblion hŷn.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, mae gwaith yr arlunydd Josef Herman yn darparu ffocws ysgogol ar gyfer prosiect rhwng cenedlaethau yn seiliedig ar gymunedau glofaol lleol. Mae'r disgyblion hŷn yn y 'Criw Cymraeg' yn cyfrannu'n weithredol ac yn frwdfrydig at ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion iau. Er enghraifft, maent yn eu helpu i ymarfer cyfrif i ddeg yn Gymraeg, yn gwneud cwisiau rhyngweithiol ac yn monitro'r Gymraeg ar arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw staff yn defnyddio ac ymestyn medrau Cymraeg disgyblion yn gyson o gwmpas yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio medrau TGCh yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ddyfeisgar i gysylltu ag athro menter lleol i gael cyngor am y busnes y maent yn ei gychwyn. O ganlyniad, maent yn dysgu am bwysigrwydd ymchwil i'r farchnad a hysbysebu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned eithriadol o ofalgar a chynhwysol. Mae ganddi berthynas gref iawn â'i theuluoedd. Mae staff yn cyfathrebu'n dda â rhieni a gofalwyr trwy ystod eang o ddulliau, fel cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau tymhorol, ap yr ysgol a gwefan yr ysgol. Mae cyfleoedd helaeth i deuluoedd gymryd rhan ym mywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae rhieni, neiniau a theidiau, ac aelodau eraill o'r teulu, yn helpu'n rheolaidd â chlybiau ar ôl yr ysgol a grwpiau llais y disgybl. Mae rhieni hefyd yn gwirfoddoli i helpu rhedeg banc yr ysgol a'r caffi cymunedol. Rhoddir ystod eang iawn o gyfleoedd i rieni ddysgu sut i gynorthwyo eu plant, er enghraifft mewn 'digwyddiadau mynegi' lle mae'r disgyblion yn rhannu'r gwaith y maent wedi'i ddysgu yn eu testun.

Nodwedd ragorol o'r ysgol yw ystod helaeth y cyfleoedd y mae'n eu darparu i ddisgyblion ddangos a datblygu eu medrau arwain trwy gael rolau a chyfrifoldebau clir. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cynllunedig i ddisgyblion ffurfio ac arwain gwaith strategol yr ysgol. Cesglir awgrymiadau disgyblion mewn amrywiaeth o ffyrdd ac mae'r grŵp perthnasol ar draws yr ysgol yn bwrw ymlaen â nhw. Er enghraifft, mae'r 'Sgwad Digidol' yn arwain gwaith ar godio ar draws yr ysgol ac mae'r grŵp Eco yn gweithio gyda rhieni i ddatblygu gardd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol wedi hen ennill ei blwyf ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau arwain o ansawdd da. Caiff disgyblion effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol, er enghraifft trwy'r 'Cynllun Pŵer Disgyblion' ('Pupil Power Plan'), sydd wedi gwella safonau mewn llawysgrifen. Mae llais y disgybl yn yr ysgol yn rhagorol o ran datblygu hunanhyder disgyblion, eu balchder ynddyn nhw eu hunain a'u gallu i weithio gyda phlant a phobl eraill.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd eithriadol o dda i ddisgyblion gymryd rhan yn y celfyddydau creadigol trwy eu hastudiaethau. Mae arweinwyr ac athrawon yn sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu eu galluoedd creadigol. Er enghraifft, bu disgyblion a rhieni’r ysgol yn gweithio’n agos gydag addysgwr ym maes y celfyddydau i archwilio’r priodoleddau a’r broses greadigol y gall celf eu darparu. Gwelir y gwaith celf hwn o amgylch yr ysgol ac o fewn tir yr ysgol; mae o safon uchel ac yn aml yn digwydd o ganlyniad i ymdrechion unigol ac ymdrechion disgyblion a rhieni ar y cyd. Darperir ystod ehangach o gyfleoedd diwylliannol effeithiol ar gyfer disgyblion; er enghraifft, mae’r grŵp ‘arwyddo i ganu’ (‘sign to sing’) yn perfformio i’r gymuned leol.

Mae athrawon yn trefnu ystod eang o ymweliadau addysgol ac yn gwahodd ymwelwyr diddorol i’r ysgol. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn gweithio gydag ystod o bobl arbenigol sy’n gerddorion, arlunwyr, ac aelodau o’r gymuned fusnes ac entrepreneuraidd. O ganlyniad, mae disgyblion yn cynhyrchu gwaith celf a pherfformiadau cerddorol rhagorol, ac yn datblygu’n entrepreneuriaid hyderus.

Mae gan yr ysgol system gynhwysfawr ar gyfer nodi ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn defnyddio’r wybodaeth hon yn dda i nodi disgyblion sydd angen cymorth mewn llythrennedd, rhifedd neu gyda’u datblygiad emosiynol. Mae cynllun addysg unigol gwerth chweil gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy’n cynnwys targedau cyflawnadwy y mae disgyblion a rhieni’n eu hadolygu’n rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion targedig yn gwneud cynnydd da. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth effeithiol yn y dosbarth i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol amrywiaeth o raglenni ymyrraeth sy’n bodloni anghenion unigolion a grwpiau penodol yn llwyddiannus. Mae staff yn adnabod anghenion eu disgyblion yn dda iawn. Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sy’n agored i niwed. Er enghraifft, caiff disgyblion ddarpariaeth effeithiol i ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol trwy ‘Y Cwtch’. Mae hyn yn eu helpu i ddelio ag amrywiaeth o sefyllfaoedd sy’n newid bywyd, ac yn sicrhau parhad yn eu dysgu.

Mae trefniadau hynod effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ffrwythau ffres ar gael yn siop fwyd yr ysgol, sy’n cael ei rhedeg gan ddisgyblion. Mae addysg gorfforol reolaidd ac ystod helaeth o ddigwyddiadau allgyrsiol yn hyrwyddo ffitrwydd disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae pob un o’r disgyblion ar draws yr ysgol yn cymryd rhan mewn sesiynau dysgu yn yr awyr agored, fel ‘Dydd Mercher Esgidiau Glaw’ (‘Welly Wednesday’). Maent yn cymryd rhan mewn gwersi dawnsio wythnosol ac mae pob un o’r disgyblion o Flwyddyn 2 ymlaen yn cael gwersi nofio rheolaidd. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol ac maent yn ymgymryd yn llawn â’r holl weithgarwch corfforol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu i fod yn unigolion iach a hyderus.

Mae’r ysgol yn rhoi pwyslais cryf iawn ar ddatblygu addysg bersonol, gymdeithasol, foesol ac ysbrydol ei disgyblion ac mae’n hyrwyddo saith gwerth craidd yr ysgol yn dda iawn. Mae gwasanethau’n darparu cyfleoedd gwerth chweil iddynt fyfyrio ar sut gallant ddefnyddio’r gwerthoedd craidd yn eu bywyd bob dydd. Mae elfen ‘arwyddo i ganu’ gwasanaethau yn rhoi dealltwriaeth ragorol i ddisgyblion o’r ffyrdd niferus y mae pobl yn cyfathrebu. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o

bwysigrwydd arfer busnes moesegol, trwy rannu'r elw a wnânt trwy eu gweithgareddau entrepreneuraidd fel Caffi Graigos, ag elusennau lleol. O ganlyniad, mae disgyblion yn eithriadol o garedig ac ystyriol, ac maent yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Mae hon yn nodwedd ragorol ym mywyd yr ysgol ac yn cyfrannu'n sylweddol at amgylchedd dysgu hynod effeithiol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth hynod effeithiol. Mae wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth gref a chlir ar gyfer yr ysgol sy'n llywio'i bywyd a'i gwaith. O ganlyniad, mae'r tîm cyfan wedi ymrwymo i sicrhau bod pob unigolyn yn cael y dechrau gorau posibl yng Nghraigfelen. Mae wedi datblygu tîm effeithiol o staff, sy'n ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn dda iawn.

Mae gan lywodraethwyr ddisgwyliadau clir ohonyn nhw eu hunain ac o'r staff, y disgyblion a'r gymuned ehangach. Mae eu strwythur pwyllgorau yn eu galluogi i nodi eu cryfderau personol eu hunain a gweddu'r rhain yn briodol i anghenion yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn gweithio gyda staff a disgyblion i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'u bod wedi datblygu cynllun strategol defnyddiol ar gyfer y corff llywodraethol. Maent yn gweithio gyda thîm 'Pŵer Disgyblion' a staff yn effeithiol iawn i gynllunio ac arfarnu'r gwaith o ran blaenoriaethau'r ysgol. Er enghraifft, maent wedi bod yn llwyddiannus o ran helpu gwella meysydd llythrennedd, fel llawysgrifen a darllen. Mae llywodraethwyr yn rheoli adnoddau'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r holl adnoddau sydd ar gael gan gynnwys y grant datblygu disgyblion. Er enghraifft, caiff disgyblion brofiadau creadigol hynod effeithiol a rheolaidd mewn cerddoriaeth a chelf. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau uchel yn eu gwaith celf, sy'n hynod weladwy mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cymorth bugeiliol targedig, o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed i sicrhau nad yw eu dysgu'n cael ei effeithio'n anffafriol wrth wynebu sefyllfaoedd heriol.

Mae'r pennaeth wedi rheoli'r strwythur arwain newidiol yn yr ysgol yn effeithiol. Mae wedi datblygu strwythur staffio cynaliadwy ac ymatebol i sicrhau bod arweinwyr yn cynnal cyfeiriad strategol, er gwaethaf newidiadau mewn staffio. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i staff ddatblygu eu medrau arwain eu hunain ymhellach.

Mae cymuned yr ysgol gyfan yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i arfarnu ei pherfformiad presennol a nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr, gan gynnwys disgyblion, yn datblygu cynlluniau pwrpasol ar gyfer datblygu'r ysgol sy'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau allweddol. Mae'r cynlluniau yn cynnwys blaenoriaethau a chamau gweithredu clir, gyda graddfeydd amser a dyraniad adnoddau priodol. Mae arweinwyr yn monitro gweithredu'r cynlluniau hyn yn dda ac yn asesu pa mor effeithiol ydynt o ran sicrhau gwelliannau, er enghraifft mewn darllen, addysgu a datblygu llais y disgybl.

Mae gan y tîm arweinyddiaeth resymeg glir ar gyfer y pwyslais a roddir ar lais cryf y disgybl a datblygu cyfleoedd cwricwlwm cyffrous yn eu hysgol a thu hwnt. Maent yn

sicrhau bod staff yn datblygu cyfleoedd go iawn a dilys i ddisgyblion ddatblygu dawn greadigol a mentrau entrepreneuraidd, er enghraifft datblygu brandio cynnyrch ‘Soap Tastic’ sy’n cael ei werthu ym marchnad Abertawe. Mae arweinwyr wedi ymrwymo’n gadarn i ddarparu cyfleoedd go iawn sylweddol ar gyfer disgyblion, fel arwain gwiriadau iechyd a diogelwch ar draws yr ysgol, a rhedeg eu caffi cymunedol lleol a banc yr ysgol. Mae arweinwyr yn disgrifio’n glir sut mae’r cyfleoedd go iawn hyn yn rhoi hyder i ddisgyblion fod â rhan lawn mewn cymdeithas.

Mae arweinwyr wedi canolbwyntio’n dda ar roi ystod o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar waith. Maent wedi dechrau gwella cyfleoedd i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Yn fwyaf diweddar, mae’r ysgol wedi rhannu’r modd y mae’n datblygu medrau mathemategol a rhifiadol disgyblion mewn sefyllfaoedd go iawn, er enghraifft wrth ddatblygu Caffi Graigos a rhedeg banc ‘Money Spiders’ yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau rhagorol ag ystod o bartneriaid yn Abertawe a thu hwnt. Mae arweinwyr wedi ymrwymo i rannu eu harfer dda â nifer sylweddol o ysgolion, prifysgol leol a’r system addysgol ehangach. Yn ystod y digwyddiadau rheolaidd hyn, mae’r ysgol wedi rhannu ei harfer effeithiol mewn dawn greadigol ac entrepreneuriaeth. O ganlyniad, mae bron i 30 o ysgolion bellach yn cymryd rhan mewn prosiect entrepreneuraidd mewn partneriaeth â marchnad Abertawe, lle mae disgyblion yn dysgu sut i redeg busnes. Mae’r staff hefyd yn cyfrannu’n gryf at wella darpariaeth y tu hwnt i’r ysgol a’r awdurdod lleol trwy ymweld ag ysgolion eraill, cynnal ymweliadau â’u lleoliad eu hunain, ac arwain digwyddiadau lleol a rhanbarthol.

Mae arweinwyr wedi creu cyfleoedd hynod effeithiol i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o’r staff. Caiff pob un o’r staff brofiadau pwrpasol sy’n eu galluogi i ddatblygu eu medrau a’u gwybodaeth eu hunain. Gall pob un o’r staff, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu, arsylwi a dysgu oddi wrth arfer ei gilydd. O ganlyniad, mae cynorthwywyr addysgu wedi gwella eu cymorth ar gyfer addysgu darllen. Pan fydd staff wedi datblygu gwybodaeth arbenigol mewn maes, maent yn ei rhannu â staff yn eu hysgol eu hunain a thu hwnt. Er enghraifft, mae’r ysgol yn gweithio gyda phrifysgol leol ar hyn o bryd i ddarparu cyfleoedd i ysgolion eraill ddatblygu eu darpariaeth ar gyfer entrepreneuriaeth. Mae staff yn yr ysgol wedi rhannu’r arbenigedd hwn yn rhanbarthol ac yn rhyngwladol fel ei gilydd. Er enghraifft, maent wedi gweithio gyda staff o’r sefydliad rhyngwladol ar gyfer datblygiad entrepreneuraidd creadigol i rannu’r effaith a gafodd eu gwaith ar ddeilliannau a dealltwriaeth well disgyblion o’u rôl eu hunain mewn cymdeithas.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2018